DRAFT

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR 28AIN MAI 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

David Meirion Jones

Dewi Prysor Williams

Peter Jones

Gareth Davies

Troy Maclean

Morwenna Pugh

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ethol Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024-2025**

Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths yn cael ei ail-ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024-2025, a chytunodd pawb.

**2. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd**

Derbyniodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y swydd yn ffurfiol.

**3. Penodi Cadeirydd i'r Cyfarfod**

Gan fod Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths yn bresennol, roedd hyn eisoes wedi ei wneud.

**4. Derbyn Ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Eifiona Davies, Rory Francis, Linda Ann Jones a Geoffrey Jones.

**5. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**6. Ethol Is-gadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024-2025**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod Y Cynghorydd Morwenna Pugh yn cael ei hail-ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024-2025, a chytunodd pawb.

**7. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-gadeirydd**

Derbyniodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh y swydd yn ffurfiol.

**8. Trafod Cylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Cyngor Tref**

Cytunwyd bod Cylch gorchwyl Pwyllgorau'r Cyngor Tref yn aros fel y meant ar gyfer 2024-25.

**9. Penodi aelodau ac ethol Cadeirydd Pwyllgorau'r Cyngor Tref:**

a) Pwyllgor y Cyngor Tref – penodwyd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths

b) Pwyllgor Adnoddau – penodwyd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths

c) Pwyllgor Mwynderau – penodwyd Y Cynghorydd Morwenna Pugh

ch) Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio – penodwyd Y Cynghorydd Dafydd Dafis

d) Pwyllgor Staffio – penodwyd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths

dd) Pwyllgor Digwyddiadau – penodwyd Y Cynghorydd Morwenna Pugh

**10. Cydnabyddiaeth Ariannol**

**Cadeiryddion Pwyllgorau**

**Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn bod Cynghorau yng Ngrŵp A (rhai gyda phraesept mwy na £200,00) yn debygol o fod â nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch; ac mae felly'n gorchymyn bod taliad yn cael ei wneud am gyflawni Uwch-rolau. Ail-gytuno pa Gynghorwyr sy'n derbyn taliad blynyddol, sef:**

**Lwfans Sylfaenol (ar gael i bob Cynghorydd os yw'n dymuno derbyn y swm) - £156**

**Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog – hyd at £1500**

**Is-gadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog – hyd at £500**

Cytunwyd ar Lwfans Sylfaenol o £156.00, £750 i Gadeirydd y Cyngor a £500.00 i'r is-gadeirydd, os oeddynt yn dymuno derbyn y lwfansau.

**11. Enwebu a phenodi Cynghorwyr fel cynryciolwyr ar gyrff allanol**

**Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymdeithasol** – cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod Y Cynghorydd Peter Jones yn cael ei benodi a chytunodd pawb.

**Neuadd Ffestiniog** – Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Linda Ann Jones os oedd eisiau parhau.

**Partneriaeth y Parc** – Cytunodd Y Cynghorydd Mark Thomas gynrychioli'r Cyngor.

**Siambr Fasnach a Thwristiaeth Bro Ffestiniog** – cytunwyd holi os oedd y corff yn dal i fodoli.

Grŵp Rhanddeiliaid y Safle, Trawsfynydd – cytunwyd holi'r Cynghorydd Rory Francis os oedd eisiau parhau.

Bwrdd Rheoli Antur Stiniog – cytunodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis gynrychioli'r Cyngor

Cwmni Bro – cytunodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis gynrychioli'r Cyngor

Ynni Twrog – cytunodd Y Cynghorydd David Meirion Jones gynrychioli'r Cyngor.

**12. Cadarnhau cynrychiolaeth ar Fyrddau Llywodraethwyr Ysgolion Lleol**

Ysgol Maenofferen – cytunwyd holi Y Cynghorydd Rory Francis os yw am barhau. Os na, Y Cynghorydd Morwenna Pugh.

DRAFT

Ysgol Manod – cytunwyd holi’r Cynghorydd Eifiona Davies

Ysgol Bro Tan Gelli – cytunodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths gynrychioli’r Cyngor.

**13-19. Mabwysiadu’r Rheolau Sefydlog, Côd Ymddygiad Cynghorwyr, Rheoliadau Ariannol, Adolygu’r Gofrestr ASesiad Risg Cyfrifon y Cyngor Tref, Cofrestr Buddiannau Aelodau, Polisi yswiriant Adeilad gan Ganolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog, Gweithredoedd a Dogfennau Ymddiriedolaeth (os yn berthnasol)**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod cyfarfod anarferol yn cael ei drefnu ar 6ed Mehefin 2024 i drafod y dogfennau a enwir uchod, a bod y rhai presennol yn weithredol tan hynny, a chytunodd pawb.

**20. Polisïau’r Cyngor Tref**

Cytunwyd cynnal cyfarfod anarferol ar 24ain Mehefin 2024 i drafod y polisïau, a bod y rhai presennol yn parhau i fod yn weithredol tan hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.34pm.

DRAFFT